# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1B, Neuadd y Sir, Rhuthun, dydd Mercher 11 Gorffennaf 2018 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Tony Flynn, Alan James, Barry Mellor (Cadeirydd) a Joe Welch

Aelod Lleyg Paul Whitham

Roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yn bresennol.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid (RW), Prif Gyfrifydd (SG), Prif Archwilydd Mewnol (LL), Archwilydd Mewnol (LH), Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes (AS), Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (GL), Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau (IL) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ)

Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru - Gwilym Bury a Michelle Phoenix

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Martyn Holland

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru, Anthony Veale.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Fe wnaeth y Cynghorwyr Tony Flynn, Mabon ap Gwynfor a Joe Welch ddatgan cysylltiad personol yn eitem 9 ar y Rhaglen – Archwiliad Mewnol o Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion, gan eu bod yn Llywodraethwyr ysgol.

Fe wnaeth y Cynghorydd Barry Mellor a'r Aelod Lleyg Paul Witham ddatgan cysylltiad personol yn eitem 9 ar y Rhaglen – Archwiliad Mewnol o Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion, gan eu bod ag wyrion ac wyresau mewn ysgolion yn Sir Ddinbych.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2018.

Eitem 9 ar y Rhaglen – Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio – datganodd yr Aelod Lleyg Paul Witham nad oedd wedi gwneud y sylw bod 'y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn Sir Ddinbych ag un o'r niferoedd isaf'. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol mai hi oedd wedi datgan y sylw uchod.

Eitem 10 ar y Rhaglen - Archwilio Mewnol yr Uned Gaffael Gorfforaethol ar y Cyd – cododd yr Aelodau'r pwysigrwydd o fonitro'r berthynas waith ar y cyd.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel cofnod cywir.*

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL UWCH-BERCHENNOG RISG GWYBODAETH

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (HBIM) eisoes wedi'i ddosbarthu.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o Ebrill 2017 i Fawrth 2018 ac yn rhoi manylion achosion o dorri'r Ddeddf Diogelu Data gan y Cyngor a oedd wedi bod yn destun ymchwiliad gan yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO). Mae hefyd yn ymdrin â chwynion am y Cyngor yn ymwneud â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth sydd wedi cael eu cyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am geisiadau Mynediad i Wybodaeth/ Rhyddid Gwybodaeth a wneir i'r Cyngor. Mae Polisi Diogelu Data'r Cyngor yn gofyn am adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Nid oedd unrhyw doriadau sylweddol o'r Ddeddf Diogelu Data wedi bod yn y Cyngor ers 2017/18. Bu dau doriad mân o ddiogelu Data, roedd y rhain wedi'u hymchwilio gan yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth. Nid oedd yr un yn cael ei ystyried yn ddigon difrifol i warantu adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a darparwyd manylion yr achosion.

Daeth y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i rym 25 Mai 2018. Eglurodd yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth am y rheoliadau newydd a'r fframwaith gyda chosbau llymach wrth fethu â chydymffurfio â'r rheolau newydd. Roedd Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i sefydlu yn 2017, yn cynnwys cynrychiolwyr o bob gwasanaeth. Roedd y grŵp wedi darparu fforwm er mwyn trafod y gofynion newydd a goruchwylio'r gwaith sy'n cael ei wneud. Roedd gwaith wedi parhau ar draws gwasanaethau i sicrhau bod yr holl ofynion yn cael eu bodloni. Fe wnaeth y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio roi sicrwydd i aelodau, unwaith y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau, byddai Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad a byddai ei ganfyddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Mae crynodeb o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Darparodd Tabl 1 fanylion nifer y

ceisiadau a gwblhawyd ar gyfer 2014/15 i 2017/18. Roedd y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi'u canoli ar feysydd penodol ac roeddent gan mwyaf yn gysylltiedig â busnes neu oddi wrth unigolion. Roedd manylion yn ymwneud â'r ymgeiswyr mwyaf aml dros y 12 mis diwethaf wedi'u cynnwys mewn tabl yn yr adroddiad. Yn 2017/18, ni ymchwiliwyd unrhyw gwynion am y Cyngor o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, cadarnhaodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio fod y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn gymwys i bawb. Roedd yn orfodol cydymffurfio â'r fframwaith. Rhwymedigaeth y Cyngor oedd monitro cwmnïau yr oedd â chytundeb â nhw.
Gan gyfeirio at nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a ddaeth i law, cadarnhaodd swyddogion fod ceisiadau am wybodaeth a ddaeth i law yn flaenorol wedi'u cofnodi a bod gwybodaeth wedi'i rhoi. Yn dilyn un toriad mân o ddata, roedd ymchwiliadau wedi digwydd i leihau'r lefel o risg a rheolyddion yn eu lle.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

## 6 DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT

Roedd adroddiad y Prif Gyfrifydd, a oedd yn rhoi trosolwg o'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2017/18 a'r broses sy'n sail iddo, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi Datganiad Cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy. Roedd yn rhaid i aelodau gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd yn ffurfiol ar ran y Cyngor ac roedd y rôl hon wedi ei dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Roedd y cyfrifon drafft wedi'u cwblhau a'u llofnodi gan y Pennaeth Cyllid 15 Mehefin 2018. Roedd y cyfrifon drafft wedi bod ar gael i'w harchwilio yn ôl y gofyn ac yn agored ar gyfer archwiliad cyhoeddus o 9 Gorffennaf tan 3 Awst 2018.

Rhoddodd y Prif Gyfrifydd grynodeb manwl o Atodiad 1, Datganiad Cyfrifon 2017/18, a chafwyd trafodaeth ynghylch y meysydd canlynol.

Ysgolion – fe wnaeth y Prif Gyfrifydd egluro ei fod yn dal yn gyfnod ariannol anodd i ysgolion. Roedd buddsoddi mewn cyllidebau ysgol 2017/18 wedi arwain at well sefyllfa ariannol i ysgolion, gan adrodd tanwariant yn ystod y flwyddyn o £0.713m.
Adroddiadau – cadarnhawyd bod adroddiadau cyllideb yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet bob mis, ac roedd crynodeb o'r gyllideb flynyddol wedi'i chyflwyno ym mis Mehefin.
Tanwariant – os oes gan y gwasanaeth danwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn ôl y Prif Gyfrifydd a'r Pennaeth Cyllid, roedd dyrannu'r arian dros ben yn benderfyniad i'r Cabinet. Byddai argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar gyfer dyrannu arian.
Ôl-ddyledion – rhoddwyd sicrwydd bod ôl-ddyledion yn cael eu monitro'n rheolaidd. Roedd gwaith monitro agos gyda thrydydd partïon yn cynnwys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn parhau. Roedd yr adran gyllid yn

ymwybodol o gyflwyniad y Credyd Cynhwysol newydd ac yn monitro'r effaith y gallai ei gael.

Yn dilyn trafodaeth fanwl roedd ar y pwyllgor eisiau llongyfarch a diolch i'r Pennaeth Cyllid, y Prif Gyfrifydd a'r tîm am y gwaith maent wedi ei wneud o fewn y terfynau amser, a diolchwyd hefyd am yr ymatebion manwl a ddarparwyd i'r cwestiynau a ofynnwyd. Dywedodd y Prif Gyfrifydd fod modd i'r aelodau gysylltu ag o'n uniongyrchol os oedd ganddynt unrhyw gwestiwn neu ymholiad pellach ynghylch y Datganiad Cyfrifon drafft. Bydd y Datganiad o Gyfrifon terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol 26 Medi i'w cymeradwyo.

***PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r sefyllfa fel y'i cyflwynir yn y Datganiad Cyfrifon drafft a geir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 7 RHEOLI TRYSORLYS

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid wedi'i gylchredeg yn flaenorol. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a'r Prif Gyfrifydd grynodeb manwl o'r adroddiad ac atodiadau 1 a 2. Fe wnaeth yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol dywys yr aelodau drwy'r adroddiad.

Mae'r term 'rheoli trysorlys' yn cynnwys rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian y Cyngor. Roedd tua £0.5bn yn mynd drwy gyfrifon banc y Cyngor bob blwyddyn. Cafodd Aelodau wybod bod benthyciadau'r Cyngor a oedd yn weddill 31 Mawrth 2018 yn £206.19m ar gyfradd gyfartalog o 4.41% ac roedd gan y cyngor £12.5m mewn buddsoddiadau ar gyfradd gyfartalog o 0.28%.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid y risgiau ynghlwm wrth Reoli Trysorlys i aelodau, ond rhoddodd sicrwydd i aelodau bod y Cyngor yn monitro ac yn rheoli'r risgiau hynny. Caiff strategaeth a gweithdrefnau rheoli trysorlys y Cyngor eu harchwilio'n flynyddol ac roedd adolygiad yr archwiliad mewnol diweddaraf yn gadarnhaol ac ni chodwyd unrhyw faterion sylweddol.
Darparwyd yr ymatebion canlynol i'r materion a godwyd gan y Pennaeth Cyllid a'r Prif Gyfrifydd gan aelodau o'r pwyllgor -

- Mae cyfraddau'r benthyciadau newydd a gymerwyd wedi'u cloi. Ni allai unrhyw newidiadau i'r gyfradd sylfaen neu gyllid Llywodraeth newid y cyfraddau wedi'u cloi.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Adran Gyllid am yr adroddiad a'r amser a dreulir yn monitro'r swyddogaeth rheoli trysorlys.

***PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi,*

*i. Perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2017/18 a'i chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus gofynnol, fel yr adroddwyd yn adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2017/18, a oedd yn atodiad 1 yr adroddiad;*
*ii. Yr adroddiad diweddaru Rheoli Trysorlys ar gyfer perfformiad hyd yma yn 2018/19;*

iii. *Bod y Pwyllgor wedi cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad Effaith ar Les, a oedd yn atodiad 3 yr adroddiad.*

## 8 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol adroddiad diweddaru Archwilio Mewnol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd Archwilio Mewnol o ran cyflwyno gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth sbarduno gwelliant.

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am waith yr Adain Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Fe wnaeth y Prif Archwilydd Mewnol dywys yr aelodau drwy'r adroddiadau a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hyd at fis Gorffennaf 2018 am:

- Adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynwyd yn ddiweddar
- Cynnydd gwaith Archwilio Mewnol hyd yma yn 2018/19.
- Safonau perfformiad Archwilio Mewnol.

Trafodwyd y materion canlynol yn fanylach –

- Cludiant i Ddysgwyr – Mehefin 2018 – Fe wnaeth y Prif Archwilydd Mewnol dywys yr aelodau drwy adolygiad o Gludiant Dysgwyr, eglurwyd bod y timau Cefnogaeth Ysgol a Chludiant Addysg wedi gweithio'n dda i ddatblygu'r Polisi Cludiant Dysgwyr diweddaraf. Fe wnaeth yr adolygiad dynnu sylw at brosesau da a oedd yn eu lle ar gyfer asesu ceisiadau cludiant i ddisgyblion a oedd yn bodloni'r meini prawf cludiant am ddim i ddysgwyr. Roedd contractau gyda darparwyr yn risg dreigl a oedd yn cael ei monitro'n agos. Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol bod pum maes o welliant wedi'i godi, teimlwyd bod rheolaeth gyffredinol cludiant dysgwyr yn gweithredu'n dda.

- Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion – Eglurodd y Prif Swyddog Archwilio bod adroddiad manwl wedi'i gynnwys fel eitem ar y rhaglen yn hwyrach yn y cyfarfod, ac y byddai manylion yn cael eu trafod bryd hynny.

- Safonau Perfformiad Archwilio Mewnol – Roedd crynodeb o waith Archwilio Mewnol hyd yma wedi'i gyflwyno i'r pwyllgor. Fe wnaeth y Prif Swyddog Archwilio dywys yr aelodau drwy'r tabl. Fe wnaeth y Cadeirydd ganmol y system VERTO newydd ar gyfer dal gwybodaeth, gan ddweud ei bod yn hawdd i'w darllen ac yn eglur. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Archwilio fod nodiadau atgoffa i Benaethiaid Gwasanaeth ddiweddaru'r system yn parhau.

Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion ac Archwilio Mewnol am yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnwys.*

Ar y pwynt hwn (11.10am) cafwyd egwyl o 5 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.15am.

## 9 ARCHWILIAD MEWNOL O IECHYD A DIOGELWCH MEWN YSGOLION

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol), yn rhoi manylion i aelodau ynghylch yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion a oedd wedi cael sgôr sicrwydd ‘Isel’.

Eglurodd y Prif Archwilydd Mewnol i aelodau bod 5 ysgol wedi’u dewis ar hap i gael eu harchwilio, yn cynnwys cofnodion a gadwyd gan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a system AD y Cyngor. Cadarnhawyd bod llywodraethu iechyd a diogelwch mewn ysgolion yn gorwedd gyda'r ysgol a Llywodraethwyr yr ysgol. Rhoddodd y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gefnogaeth i’r ysgolion. Tynnwyd sylw at nifer o wendidau ac roedd angen tynhau polisïau. Roedd system cofnodi corfforaethol o ddamweiniau a digwyddiadau wedi’i hyrwyddo i ysgolion gan y tîm Iechyd a Diogelwch, ac arsylwyd nad oedd pob ysgol wedi ymgorffori’r system. Tywyswyd yr aelodau gan y Prif Archwilydd Mewnol drwy’r cynllun gweithredu o’r risgiau a nodwyd.

Yn dilyn y drafodaeth, fe drafodwyd y pryderon canlynol mewn mwy o fanylder -

- Gweithdrefnau Gwahardd Pob Symudiad mewn ysgolion – Eglurodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i’r aelodau bod y Prosiect Argus wedi rhoi cyngor a hyfforddiant i ysgolion a'r tîm iechyd a diogelwch. Roedd gweithdrefnau wedi’u cyflwyno yn yr ysgol a gofynnwyd i bob ysgol greu polisi.
- Llywodraethwyr Ysgol – Rhoddwyd sicrwydd i Aelodau bod yr adroddiad archwilio wedi bod ar gael i ysgolion, yn cynnwys llywodraethwyr ysgol. Roedd yr adroddiad am gael ei gyflwyno yng nghynhadledd nesaf y llywodraethwyr ysgol, i dynnu sylw at y pwysigrwydd o fonitro iechyd a diogelwch mewn ysgolion. Cadarnhaodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod hyfforddiant wedi digwydd ac wedi cynnwys rolau a chyfrifoldebau llywodraethwyr ysgol. Cyfrifoldeb yr ysgol oedd cynnal presenoldeb mewn hyfforddiant. Roedd yr adran Iechyd a Diogelwch wedi cynnig cyrsiau hyfforddiant ac wedi cadw cofnod o bresenoldeb.
- Bît yr Ysgol – Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith fod heddlu sy’n mynd i ysgolion wedi lleihau. Cadarnhaodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y byddai’n ymchwilio hyn mewn rhagor o fanylder.
- Diogelwch Tân – Roedd asesiadau Risg Tân wedi’u cwblhau gan y tîm Iechyd a Diogelwch ac yn cael eu monitro a’u hadolygu. Cadarnhaodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod rhaglen o adolygiadau wedi digwydd a oedd wedi’u harchwilio’n rheolaidd gan y gwasanaeth tân, a oedd yn hapus gyda phroses Sir Ddinbych.
- Rheoli heintiau – Cadarnhawyd bod ysgolion wedi cael templedi i gynnal polisïau a gweithdrefnau. Roedd wedi'i gynnwys yn y pecyn adnoddau ar-lein i ysgolion, er mwyn helpu i weithredu cynllun. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd ysgolion yn cael cynllun rheoli heintiau. Un cam gweithredu y cytunwyd arno, a gododd o’r adroddiad archwilio, oedd monitro ac asesu ysgolion ymhellach.

***PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol;*

I. *Yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi ei gynnwys a*
II. *Chynnwys diweddariad ar Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion yn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y pwyllgor.*

## 10 ARWEINIAD YMARFEROL CIPFA - DIWEDDARIAD O GYNNYDD

Rhoddodd y Prif Archwilydd Mewnol ddiweddariad ar lafar i aelodau ar y canllaw Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, yn ôl cais a wnaed yn y cyfarfod diwethaf.

Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol fod 3 hunanasesiad wedi dod i law gan aelodau yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Roedd nifer o gydrannau wedi'u trafod gyda chynllun gweithredu i fwrw ymlaen er mwyn rhoi sylw i bryderon. Roedd y rhain yn cynnwys -

- Cyfathrebu – Cyfathrebu rhwng aelodau a swyddogion. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cyfathrebu da i alluogi swyddogion i gynhyrchu adroddiadau y gofynnir amdanynt gan y pwyllgor.
- Cyfryngau Cymdeithasol - i hyrwyddo gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a beth mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano. Trafodwyd y pwysigrwydd o addysgu'r cyhoedd am waith y pwyllgor. Arferion gorau – Canllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth i sicrhau bod gwaith y pwyllgor o safon uchel.
- Hyfforddiant - Cyfleoedd hyfforddi parhaus i aelodau, gyda chyrsiau gloywi i alluogi gwybodaeth gref am gyfrifoldebau aelodau pwyllgor.
- Rhaglen Gwaith I'r Dyfodol – I gynnwys manylion yr adroddiadau a ofynnir gan swyddogion neu'r pwyllgor i ddangos pwrpas yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol fod y gweithgor a enwebwyd yn y cyfarfod diwethaf wedi cyfarfod i drafod y pwyntiau uchod. Byddai rhagor o drafodaethau'n digwydd i wella gwaith y pwyllgor.
Roedd diweddariad am gael ei gynnwys fel rhan o'r eitem archwilio mewnol sefydlog ar raglen o gyfarfodydd sydd ar y gweill.

***PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael y diweddariad ar lafar**,** a rhagor o ddiweddariadau ar ganllaw ymarferol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn cael ei gynnwys yn eitem sefydlog ar raglen diweddariad Archwiliad Mewnol.*

## 11 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Darparodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd adroddiad ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Eglurodd fod y Cyfansoddiad angen i'r Pwyllgor baratoi a chyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Cyngor ar berfformiad ac effeithiolrwydd y Pwyllgor.

Fe wnaeth y Pennaeth dywys aelodau drwy'r adroddiad drafft a oedd yn amgaeedig (atodiad 1) a gofynnodd i aelodau gymryd amser i ddarllen a rhoi sylw ar y

cynnwys. Eglurwyd i aelodau mai pwrpas yr adroddiad oedd dangos beth mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ei wneud a'r rôl bwysig a oedd gan Aelodau yn y Pwyllgor.

Cytunodd Aelodau i ddadansoddi'r atodiad a chodi unrhyw ddiwygiadau gyda Phennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd yn uniongyrchol.

Cadarnhad y byddai Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ysgrifenedig diwygiedig yn cael ei gyflwyno i Gyngor Sir mewn cyfarfod o'r dyfodol.

***PENDERFYNWYD -***
*(a) Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn a nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gydag unrhyw ddiwygiadau'n cael eu hanfon ymlaen at Bennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd, a*
*(b) bod adroddiad diwygiedig yn manylu'r gwaith a wneir gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir.*

**12 SAC- TROSOLWG A CHRAFFU - ADDAS I'R DYFODOL?**

Cyflwynodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru, Gwilym Bury (GB) yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol).
Tywyswyd yr Aelodau drwy'r adroddiad. Dywedodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru fod y cyngor wedi ymateb yn dda i newidiadau a heriau, fodd bynnag, gall capasiti cyfyngedig i gefnogi craffu rwystro cynnydd yn y dyfodol. Tynnwyd sylw hefyd at y potensial i aelodau Cabinet gyfrannu'n fwy gweithredol at waith craffu.

At ei gilydd, dywedodd y cynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru fod dulliau gweithio craffu ar hyn o bryd yn gweithio'n dda, ond teimlodd efallai y bydd angen mwy o adnoddau yn y dyfodol i gynnal y safon uchel o waith a monitro'r llwyth gwaith.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai angen parhau i fonitro gwaith rhanbarthol. Oes oedd angen gwaith ychwanegol, byddai adnoddau pellach yn hanfodol i gadw'r safon o graffu ar lefel uchel.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru am yr eglurhad dealladwy i'r adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

**13 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'w ystyried.
Cadarnhaodd y Pwyllgor Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn amodol ar y diwygiadau canlynol:-

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:20 p.m.**